# Hysbysiad Preifatrwydd Fforymau Mynediad Lleol

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl i gefnogi Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru a darparu cymorth sefydliadol ar gyfer cyfarfodydd Cadeiryddion Fforwm Mynediad Lleol Cymru. O dan Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001, dylem gael gwybodaeth am unigolion sydd wedi'u penodi i Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru.

Bob tair blynedd, mae Cadeiryddion Fforwm Mynediad Lleol Cymru yn enwebu Cynrychiolydd Cenedlaethol a Dirprwy Gynrychiolydd Cenedlaethol sy'n cadeirio cyfarfodydd Cadeiryddion Fforwm Mynediad Lleol Cymru a chynrychioli Fforymau Mynediad Lleol Cymru ar lefel genedlaethol (e.e. y Fforwm Mynediad Cenedlaethol).

Er ein bod yn cadw gwybodaeth a roddwyd i ni am aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol, rydym ond yn defnyddio'r wybodaeth mewn perthynas â'r aelodau sydd â'r prif rolau: unigolion sy’n cyflawni rolau Cynrychiolydd Cenedlaethol/Dirprwy Gynrychiolydd, Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd ac Ysgrifennydd. Nid yw cyfarfodydd Cadeiryddion Fforwm Mynediad Lleol Cymru yn agored i'r cyhoedd.

Mae'r hysbysiad hwn yn amlinellu sut rydym yn cadw ac yn defnyddio'r wybodaeth hon.

## Manylion adnabod a chyswllt y rheolydd data

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheolydd data ac mae'n ymroddedig i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data y gallwch gysylltu ag ef drwy anfon e-bost at dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu drwy ffonio 0300 065 3000.

## Pa wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi?

Rydym yn casglu'r wybodaeth bersonol ganlynol:

- eich enw
- enw'r Fforwm Mynediad Lleol rydych yn ei gynrychioli
- eich rôl o fewn y Fforwm Mynediad Lleol
- eich cyfeiriad e-bost
- eich rhif ffôn
- gwybodaeth am ofynion deietegol neu unrhyw ofynion eraill

### Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth er mwyn gwneud y canlynol:

- anfon gwybodaeth a phapurau mewn perthynas â Chadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol Cymru a'u cyfarfodydd
- galluogi Cadeiryddion, Dirprwyon ac Ysgrifenyddion y Fforwm Mynediad Lleol i gyfnewid gwybodaeth a chydweithio
- galluogi'r Cynrychiolydd Cenedlaethol a'r Dirprwy Gynrychiolwyr Cenedlaethol (neu unrhyw un sy'n dirprwyo ar eu rhan) i gyfathrebu'n uniongyrchol ag unrhyw un/pob un o Ysgrifenyddion, Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol a chasglu gwybodaeth oddi wrthynt
- rhannu gwybodaeth a phapurau mewn perthynas â'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol er mwyn galluogi aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol i fynychu fel arsylwyr neu roi sylwadau i'r Cynrychiolydd Cenedlaethol
- rhannu gwybodaeth o ran buddiant Fforymau Mynediad Lleol Cymru oddi wrth drydydd partïon (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, sefydliadau sy'n aelodau a sefydliadau eraill)
- ein helpu i ddarparu gwasanaeth arlwyo a chyfleusterau addas ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm
- hyrwyddo rôl y Fforymau Mynediad Lleol drwy gynnwys enwau pob Fforwm Mynediad Lleol, dolen i dudalennau gwe a manylion cyswllt ysgrifenyddion y Fforwm Mynediad Lleol ar wefan y Fforwm Mynediad Lleol

### Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Rydym yn cadw data personol fel y nodir o dan Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 ac wrth gyflawni ein rôl i gefnogi gwaith y Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru.

### Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?

Byddwn yn rhannu gwybodaeth rhwng pobl sydd â'r prif rolau ar Fforymau Mynediad Lleol (fel y nodir uchod) o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a gyda Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd:

- i hyrwyddo rhwydweithio rhwng Cadeiryddion, Dirprwyon, Ysgrifenyddion y Fforwm Mynediad Lleol a'r Cynrychiolydd Cenedlaethol
- i hyrwyddo ymgysylltiad ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid mewn perthynas â buddiannau Fforymau Mynediad Lleol

## Am ba hyd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?

Byddwn ond yn dal gwybodaeth bersonol y cynrychiolwyr cyfredol, bydd y manylion hyn yn cael eu cadw tan i ni gael ein hysbysu am newid. Pan fydd unigolyn yn peidio â bod yn gynrychiolydd byddwn ni'n dileu ei wybodaeth bersonol.

## Beth yw hawliau'r unigolyn?

Mae'r rhestr cysylltiadau ar gyfer cynrychiolwyr yn cael ei chynnal gan Gynghorydd Mynediad a Hamdden Cyfoeth Naturiol Cymru y gellid cysylltu ag ef drwy ffonio 0300 065 4704 neu drwy anfon e-bost at LAF@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk petaech yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau i'r manylion sydd gennym neu'r ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth.

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, ac i gywiro, dileu, cyfyngu a chludo eich gwybodaeth bersonol. Ewch i'r tudalennau diogelu data ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'ch hawliau.

Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data Cyfoeth Naturiol Cymru: -

E-bost – dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Swyddog Diogelu Data
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

## Diogelwch eich gwybodaeth

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw ar System Rheoli Dogfennau Cyfoeth Naturiol Cymru. Dim ond staff Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â mynediad at y system hon.

## Sut i wneud cwyn

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y mae eich data personol wedi cael ei brosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner’s Office**
**Wycliffe House**
**Water Lane**
**Wilmslow**
**Cheshire**
**SK9 5AF**

**www.ico.org.uk**